



Amcan Llesiant 12

Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

Y canlynol yw ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

| Ymrwymiaidau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|--|--------|--|
| A - Mynd i'r afael â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | | |
| Byddwn yn parhau i gyflawni prosiect Britheg y Gors Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr, a hynny'n unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ceisio sicrhau bod o leiaf 100 hectar o gynefin Britheg y Gors yn cael eu rheoli'n barhaus. (Cyf. 12649) | ✓ | Mae'r prosiect yn parhau i reoli 24 o safleoedd sy'n darparu 40.46 hectar o gynefin sydd mewn cyflwr addas ar gyfer britheg y gors. Mae canlyniadau arolygon yn haf 2018 yn dangos bod nifer y gweoedd larfal a gofnodwyd yn hynod uchel eleni a bod 86 o weoedd wedi'u cofnodi ar un safle. Canfu arolygon cynefinoedd gofnodion newydd o Fritheg y Gors mewn 31 cae, ar draws yr ardal, gan ehangu ein gwybodaeth am yr iar fach yr haf hon yn y rhan hon o'r sir, a bydd y gwaith hwn yn llywio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r fersiwn ddiwygiedig o Ganllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr. Mae'r prosiect yn parhau i sicrhau bod y tir yn cael ei bori'n briodol yng nghytundebau rheolwyr, gan helpu tîrfeddianwyr yn aml i ganfod anifeiliaid pori addas. Mae hefyd wedi bod yn gwneud defnydd o gynllun grantiau bach Glas Tir, pryd y gall, er mwyn rheoli perthi. |
| Byddwn yn datblygu strategaeth goed i wella'r amgylchedd ac i liniaru effeithiau llygredd aer a sŵn yn ein hardaloedd mwyaf poblog. (Cyf 13241) MF5-23 | ✓ | Cafodd y Strategaeth Goed ei chymeradwyo eleni ac mae wedi dechrau cael ei rhoi ar waith. |
| Byddwn yn adolygu Polisi Adeiladau Gwledig y Cyngor. (Cyf 13242) MF5-22 | ✓ | Mae hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r adolygiad o'r CDLI. Bydd y canlyniadau llawn yn glir erbyn y fersiwn adnau ddiwedd 2019 |
| Byddwn yn gweithredu ac yn monitro'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn unol â'r gofynion statudol a chynnwys y Fframwaith Monitro a Gweithredu cytunedig. (Cyf 13243) MF5-20 | ✓ | Mae ceisiadau cynllunio'n dal i gydymffurfio'n llawn â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r AMR ar gyfer 2017/18 wedi ei gwblhau ac mae'n gweithredu fel mecanwaith wirio i weld pa mor dda mae penderfyniadau'n cyfateb i bolisiau cynllunio. |
| Byddwn yn cychwyn y gwaith o baratoi CDLI diwygiedig yn unol â darpariaethau statudol. Bydd y pwyslais yn 2018/19 ar broses y safleoedd ymgeisio, casglu tystiolaeth ac ymgysylltu'n gyffredinol, ac Ymgynghori Cyn-adneuo. (Cyf. 13244) | ✓ | Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig gyda'r Cytundeb Cyflawni. Mae'r broses Safleoedd Ymgeisio wedi'i chwblhau. Mae'r strategaeth ddrafft cyn-adnau a ffefrir, ynghyd â dogfennau ategol eraill, wedi cael eu cyhoeddi i ymgynghori'n ffurfiol yn eu cylch, ac mae mwy na 300 o sylwadau wedi dod i law. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. |
| Bydd yr Is-adran Gynllunio yn datblygu ymagwedd gyson o ran sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella, a bod cydnerthedd ecosystemau yn cael ei hyrwyddo, fel rhan o'r system gynllunio, a hefyd yn ei weithgareddau Cadwraeth, Mwynau a Rheoli Adeiladu. (Cyf. 13245) | ✓ | Mae gweithdai amrywiol wedi cael eu cynnal gydol y flwyddyn. Gan gynnwys y tîm Mwynau a Gwastraff |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|--|
| <p>Byddwn yn mabwysiadu ac yn gweithredu Gorchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli, fel rhan o ymagwedd strategol gydgysylltiedig at adfywio yng nghanol y dref (yn amodol ar gytuno arno drwy'r broses wleidyddol ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd). (Cyf. 13246)</p> | ✓ | <p>Mae argaeledd tystiolaeth gadarn ac amddiffynadwy a darpariaethau statudol sy'n ategu ei ddynodiad yn ganolog i baratoi'r Gorchymyn Datblygu Lleol a'i gyhoeddi at ddibenion ymgynghori. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau, ac, ynghyd â'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r Gorchymyn Datblygu Lleol, wedi'i gyhoeddi i ymgynghori yn ei gylch wedi i'r Cyngor gytuno i fabwysiadu'r Gorchymyn Datblygu Lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ac mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol yn weithredol bellach.</p> |
| <p>Byddwn yn parhau i fonitro, a, lle bo'n briodol, reoli'r defnydd o arian a godwyd drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr, gan gynnwys cytundebau adran 106. O ganlyniad byddwn yn sicrhau y defnyddir arian yn briodol a bod defnydd effeithlon a di-oed yn cael ei wneud o gronfeydd. (Cyf 13247) MF5-21</p> | ✓ | <p>Mae arian yn dal i gael ei sicrhau a'i ddefnyddio yn unol â darpariaethau polisi fel y nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a chytundebau cyfreithiol. Mae cyfraniadau o'r fath, y broses a ddefnyddir i'w casglu, a'u defnydd yn destun monitro parhaus.</p> |
| <p>Byddwn yn datblygu a gweithredu cynllun cynhwysfawr i ddefnyddio'n llawn asedau'r tŷ a'r parc ym Mharc Howard gyda'r nod o'i wneud yn lleoliad ar gyfer gwobr y Faner Werdd ac yn ystyried mannau eraill yn y sir allai elwa ar fod yn lleoliad y Faner Werdd. (Cyf 13248) MF5-19</p> | ✓ | <p>Mewn trafodaethau cychwynnol â grwpiau partner, Cyngor Tref Llanelli a Chymdeithas Parc Howard. Ar waith.</p> |
| <p>Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i wella capasiti carthffosiaeth yn y Sir drwy ddatblygu cynlluniau priodol. Sicrhau bod gwelliannau cynlluniedig sy'n rhan o'r rhaglen yn cael eu dylunio a'u gweithredu i fynd i'r afael â materion o ran capasiti. Mynd i'r afael â'r cyflenwad dŵr yn ogystal. (Cyf 13249) MF5-24</p> | ✓ | <p>Bydd y cynnig hwn yn parhau i fod yn bryder parhaus - Byddwn ni hefyd yn parhau i ymgysylltu wrth baratoi'r CDLI diwygiedig er mwyn sicrhau, lle bo hynny o fewn cylch gwaith y gwasanaeth, fod y cam hwn yn cael ei roi ar waith. Lle bo'n briodol byddwn ni hefyd yn cydgysylltu â Chorff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB) ynghylch materion yn ymwneud â dŵr wyneb a materion capasiti lle bo'n rhan o'u cyfrifoldeb.</p> |
| <p>Byddwn yn cynyddu canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynir arnynt mewn pryd (PAM/018)</p> <p>(Canlyniad 2017/18 - 71.2% / Targed 2018/19 - 75%)</p> | x | <p>Cafodd 72.6% o'r ceisiadau cynllunio eu penderfynu ar amser. Mae hwn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol ond nid ydym wedi cyrraedd ein targed. Mae colli swyddogion profiadol (un parhaol ac un ar absenoldeb mamolaeth) yn ystod y flwyddyn wedi dylanwadu ar y canlyniad.</p> <p>Mae swyddogion wedi cael eu hatgoffa, a byddant yn parhau i gael eu atgoffa, o bwysigrwydd llythyrau amser estynedig y dylid eu cael yn y rhan fwyaf o achosion, os nad pob un, lle na ellir dod i benderfyniad o fewn y terfyn amser statudol am wahanol resymau. Mae hyn yn parhau i fod yn fater i'w drafod gydag asiantwyr/ymgeiswyr ac mae'n bwysig nodi bod Sir Gaerfyrddin yn perfformio ar lefel uwch na llawer o'r awdurdodau cynllunio eraill wrth fesur bodlonrwydd cwsmeriaid gyda meysydd fel mynediad at swyddogion.</p> |
| <p>Byddwn yn cynyddu % yr apeliadau cynllunio sy'n cael eu gwrthod (PAM/019)</p> <p>(Canlyniad 2016/17 - 66.67% / Targed 2017/18 - 69%)</p> | ✓ | <p>Cafodd 71.4% o'r apeliadau cynllunio eu diystyru yn ystod 2018/19.</p> |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|---|
| B - Monitro cyflawniad Blaen-gynllun CSC ar gyfer Deddf yr Amgylchedd | | |
| <p>Drwy fonitro gweithrediad Blaen-gynllun y Cyngor, byddwn yn cyflwyno tystiolaeth ynghylch sut mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyflawni ei Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), gan adrodd ar y canlyniadau a geir i Lywodraeth Cymru. (Cyf. 13250)</p> | ✓ | <p>Mae'r Rheolwr Cadwraeth Gwledig wedi paratoi adroddiad i Bwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ar gyfer 29/06/2018. Yn gryno, ym mis Mawrth adroddwyd, o blith 35 cam gweithredu Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd, mae 26 wedi gwneud cynnydd a dyw 9 heb. Mae manylion y camau a gymerir wedi'u pennu yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu.</p> |
| C - Gweithredu a hyrwyddo mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy | | |
| <p>Byddwn yn lleihau'r defnydd o ynni (kWh) / allyriadau carbon (tunelli) ym mhortffolio adeiladau annomestig presennol y Cyngor. (Cyf 13251) MF5-13</p> | ✓ | <p>Rydym yn dal i adolygu defnydd a buddsoddi mewn 'smart meters' a thechnolegau newydd i leihau ynni a ddefnyddir ac allyriadau. Rydym wedi ymuno â chynllun re:FIT Llywodraeth Cymru i adolygu mentrau arbed ynni mewn dros 30 o adeiladau'r Cyngor sy'n defnyddio fwyaf o ynni. Mae'r broses dendro wedi'i chwblhau ac mae dyfarniad wedi'i wneud. Mae'r gwaith gyda'r contractwr llwyddiannus yn digwydd yn barhaus</p> |
| <p>Byddwn yn clustnodi ac yn cyflawni prosiectau effeithlonrwydd ynni yn adeiladau presennol, annomestig y Cyngor. (Cyf. 13252)</p> | ✓ | <p>Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn rhaglen Re:fit Cymru a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, er mwyn nodi cyfleoedd ynni, dŵr, ac effeithlonrwydd mewn dros 30 o adeiladau annomestig gan gynnwys ysgolion. Yn wahanol i brosiectau effeithlonrwydd ynni blaenorol Salix, o dan raglen Re:fit Cymru mae darparwr gwasanaeth yn cael ei benodi, drwy fframwaith caffael cenedlaethol, sy'n gwarantu arbedion a nodwyd fel rhan o'r contract perfformiad ynni.</p> <p>Yn dilyn proses dendro gystadleuol, cwmni o'r enw Ameresco yw'r darparwr gwasanaeth a ffefrir. Mae Ameresco wedi cynnal arfarniadau lefel uchel ar bob safle er mwyn nodi mesurau cadwraeth ynni ynghyd â chostau / ad-daliadau ariannol cysylltiedig. Cafwyd cadarnhad gan Salix ar 27 Mawrth 2019 fod benthyciad di-log hyd at £2,541,498 ar gael ar gyfer y prosiectau hyn.</p> <p>Anelir at ddechrau gwaith ar y safle yn ystod Haf 2019 a'i gwblhau erbyn tymor yr Hydref 2020.</p> |
| <p>Byddwn yn cyfrannu at raglen Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i ddatblygu 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' i helpu i greu cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy a mynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith ein trigolion drwy ddatblygu cartrefi newydd â thechnolegau arloesol. (Cyf. 13253)</p> | ✓ | <p>Rydym wedi ymchwilio i'r potensial o dechnoleg adnewyddadwy ôl-ffitio ar ein stoc dai ond barnwyd bod hyn yn anymarferol.</p> <p>Mae cyfraniadau eraill cysylltiedig ag eiddo i'r prosiect 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' yn rhan o'r cartrefi newydd arloesol a adeiledir yn Garreglwyd a Dylan - gweler isod.</p> |
| <p>Byddwn yn cyfrannu at raglen Bargaen Ddinesig Bae Abertawe i ddatblygu 'Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer' i helpu i greu cartrefi cynaliadwy a fforddiadwy a mynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith ein trigolion drwy ddatblygu cartrefi newydd â thechnolegau arloesol. (Cyf 13254) MF5-46 (rhannol)</p> | ✓ | <p>Mae gwaith ar ddau gynllun tai Dylan a Garreglwyd, sy'n cynnwys nifer o dechnolegau arloesol gwell sy'n rhagori ar ofynion Rheoliadau Adeiladu, yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Bydd y cartrefi hyn yn lleihau defnydd o ynni a chostau i denantiaid. Rydym hefyd yn ystyried ac yn datblygu cyfleoedd ar gyfer opsiynau a dyluniadau pellach ar bâr o dai ar led-wahân fel cynllun peilot i hybu ymhellach y dull ffabrig yn gyntaf er mwyn lleihau defnydd</p> |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ x | Sylw ar Gynnydd |
|---|--------|---|
| | | o ynni ac ôl troed carbon. Pan gaiff y rhain eu datblygu, gellid eu defnyddio ar unrhyw ddatblygiadau tai pellach i wneud hyd yn oed mwy o arbedion effeithlonrwydd cysylltiedig ag ynni ac er cysurwch y deiliad a pherfformiad. |
| D - Amddiffyn ein hamgylchedd a'n heiddo drwy ddarparu ein Cynllun Rheoli Llifogydd a Gwastraff; ac amddiffyn a rheoli ein harfordir drwy ddarparu Cynllun Rheoli'r Traethlin. | | |
| Byddwn yn cwblhau Cynlluniau Rheoli'r Perygl o Llifogydd fel rhan o'r strategaeth ar gyfer nodi, rheoli a lliniaru'r perygl o lifogydd yn ein cymunedau. (Cyf. 13255) | ✓ | Mae'r dogfennau wedi'u cwblhau ac wedi'u hadolygu'n fewnol o fewn Amddiffyn Llifogydd ac yn allanol gan gontractwr fframwaith. Rhan-1 gyda'r uned gyfieithu Rhan-2 i'w hanfon at yr uned gyfieithu'r wythnos hon. |
| E - Gweithredu camau o'r 'Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwasttraff', er mwyn bod yn genedl sy'n ailgylchu llawer erbyn 2025 ac yn genedl ddiwasttraff erbyn 2050. | | |
| Byddwn yn parhau i adolygu ein hopsiynau o ran strategaeth trin gwastraff a'r anghenion o ran seilwaith ailgylchu, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyrraedd ein targedau ailgylchu statudol a thargedau dargyfeirio o safleoedd tirlenwi o fis Ebrill 2018 ymlaen. (Cyf 13256) MF5-16 | ✓ | Mae grŵp llywio'r prosiect wedi'i sefydlu i adolygu gwasanaethau gwastraff yn y dyfodol. Mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael ei roi ar waith. Rydym wedi nodi modelau posibl ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth ac mae modelu ariannol a pherfformiad ar waith. |
| Byddwn yn cynnal adolygiad o'r llwybrau gwastraff gwyrdd i sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ar gyfer preswylwyr. (Cyf 13257) MF5-17 | ✓ | Cynhaliwyd adolygiad o'r llwybr gwastraff gwyrdd ddiwedd tymor diwethaf (Tachwedd 2018). Mewn ymateb i'r adolygiad, mae llwybrau newydd wedi'u datblygu ac mae Achos Busnes wedi'i gymeradwyo dros ddarparu trydydd cerbyd ar gyfer y tymor i ddod, er mwyn galluogi hyrwyddo'r gwasanaeth a thrwy hynny hybu nifer y cwsmeriaid. |
| Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid lleol i dreialu trefniadau rheoli sbwriel ledled Llanelli, gan roi sylw penodol i ganol y dref a'r ffyrdd sy'n arwain ato, gyda'r bwriad o gyflwyno'r trefniadau ar draws y sir. (Cyf 13258) MF5-18 | ✓ | Rydym yn parhau i weithio gyda grwpiau lleol, asiantaethau partner, a llefydd cludfwyd i ddatrys problemau sbwriel mewn trefi ac ar draws y sir ehangach drwy fentrau addysg ac ymwybyddiaeth, posterï gwrth-sbwriel ac arwyddion wedi cael eu darparu i fwytai cludfwyd yn y sir. Gweithredu uniongyrchol drwy ddefnyddio adnoddau a defnyddio grwpiau codi sbwriel lleol ac wrth gwrs, drwy orfodi drwy hysbysiadau cosb benodedig ac erlyniadau fel y bo'n briodol. Mae gwaith monitro wedi'i wneud i nodi pa mor gyflym mae ardaloedd lle mae sbwriel ar ei waethaf yn cael ei anharddu'r eilwaith wedi'r gwaith glanhau. |
| Byddwn yn parhau i weithio gyda CWM Environmental i adolygu ein trefniadau trin/gwaredu gwastraff yn y tymor byr drwy sicrhau trefniadau priodol ar gyfer trin a gwaredu ein gwastraff. (Cyf. 13259) | ✓ | Yn ystod y flwyddyn hon, mae gwaith wedi'i wneud i adolygu gwasanaethau a ddarperir gan CWM ac ar ôl gweithredu Teckal, datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd. Disgwylir y bydd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn cael ei roi ar waith yn syth. |
| Byddwn yn parhau i adolygu'r cyfraddau presennol ar gyfer ailgylchu gwastraff y cartref er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o wastraff yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi ac er mwyn cynyddu ailgylchu. Cynnal rhaglen o ddrws i ddrws er mwyn cynghori ac annog trigolion i fod yn rhan o'n cynlluniau ailgylchu. (Cyf. 13260) | ✓ | Ymgysylltwyd ag aelwydydd rhwng Gorffennaf a Thachwedd 2018, pryd y cyflogwyd nifer o staff ychwanegol i gyflawni'r gwaith hwn. Ymwelwyd â 29,440 o aelwydydd a chafwyd sgwrs ag 8,318 o aelwydydd fel rhan o'r cynllun o ddrws i ddrws. |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ ✘ | Sylw ar Gynnydd |
|--|--------|--|
| Byddwn yn ymchwilio i'r bartneriaeth bosibl â chwmnïau trydydd sector cymunedol lleol er mwyn gwella perfformiad gwasanaeth gwastraff swmpus ac ailddefnyddio y Cyngor. (Cyf. 13261) | ✓ | Mae cyfarfodydd cwmpasu cychwynnol wedi'u cynnal gyda rhai sefydliadau partner posibl i gael cipolwg ar gapasiti a faint o awydd sydd i weithio mewn partneriaeth. Bydd adolygiad llawn o'r gwasanaeth yn cychwyn ym mis Ebrill 2019. |
| Byddwn yn cynnal arolwg bodlonrwydd y cyhoedd i asesu barn y cyhoedd am wasanaethau presennol. Byddwn hefyd yn asesu'r awydd i newid y gwasanaethau yn y dyfodol i wella perfformiad ailgylchu Sir Gaerfyrddin. (Cyf. 13262) | ✓ | Cynhaliwyd yr ymgynghoriad i gasglu gwybodaeth am farn y cyhoedd o ran y gwasanaeth ailgylchu presennol a ddarperir ac i ddeall y rhwystrau i ailgylchu y gallai preswylwyr fod yn eu hwynebu. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn anelu at asesu barn y cyhoedd ar newidiadau sydd ar fin digwydd ac yn estyn gwahoddiad i drigolion gyflwyno eu hawgrymiadau ynghylch sut maen nhw'n credu y gellid cynyddu cyfraddau ailgylchu. Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Adrannol a'r Pwyllgor Craffu ym Mai 19 |
| Byddwn yn lleihau'r gwastraff trefol nad yw'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod y flwyddyn fesul person(PAM/043) <i>(Gwaelodlin 2017/18 - 167.9kg / Targed 2018/19 - 167.9kg)</i> | ✘ | Canlyniad 2018/19 - 179.7. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Awdurdod wedi profi lefelau uwch o wastraff gweddilliol yn llifo i nentydd drwy'r rhwydwaith Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref a thrwy anawsterau â marchnadoedd tanwydd sy'n deillio o sbwriel. Mae cyfuniad o'r pethau hyn wedi achosi i'r mesur beidio â chydymffurfio â'r targed. Yn ddiweddar rydym newydd orffen rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd i gynyddu cyfranogiad yn ein cynlluniau ailgylchu. Cyflogwyd swyddogion i gynnal rhaglen lle aed o ddrws i ddrws i ddarparu gwybodaeth, cefnogaeth a deunyddiau i'r cyhoedd i helpu ein perfformiad ailgylchu i wella. Yn ystod 2019/20 ein nod yw gweithio ar gynlluniau lleihau gwastraff gweddilliol, a rhoddir cymorth pellach i'r criwiau casglu i hyrwyddo'r drefn o bedwar bag du bob pythefnos drwy hyfforddiant a datblygu proses newydd. |
| Byddwn yn parhau i ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio canran uchel o wastraff (PAM/030). <i>(Canlyniad 2017/18 – 63.64% / Targed 2018/19 – 64%)</i> <i>Targed wedi'i bennu i gyrraedd y targedau gwastraff cenedlaethol.</i> | ✘ | Canlyniad 2018/19 - 58.94. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae methiant yn y farchnad o ran y contract Tanwydd yn Deillio o Sbwriel wedi arwain at ostyngiad mawr yn y deunydd a adferir drwy Ynni o Wastraff, ac, yn sgil hynny, lleihad yn y perfformiad ailgylchu 'bottom ash'. Mae hyn wedi'i gyfuno â chynnydd anghymesur yn y gwastraff gweddilliol sy'n cael ei gasglu drwy gamddefnyddio'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref o gymharu â'r deunydd ailgylchu sy'n cael ei gasglu gan yr Awdurdod, ac at ei gilydd mae hyn wedi arwain at ddirywiad yn y perfformiad ailgylchu cyffredinol. Nid yw'r perfformiad hwn gystal â'r hyn a ddisgwylir ac mae nifer o weithgareddau'n cael eu rhoi ar waith i unioni hyn. Rydym wedi gweithredu mesurau rheoli newydd yn ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ar gyfer gwastraff o ffynonellau masnachol a di-breswyl, yn ogystal â didoli rhagor o fagiâu dau, sydd i'w weithredu ym mis Hydref. Rydym hefyd yn ceisio cynyddu'r bwyd a gesglir trwy drefniadau eraill a gosod |

| Ymrwymiadau'r Llynedd | ✓ ✘ | Sylw ar Gynnydd |
|--|--------|---|
| | | rhagor o gyfyngiadau ar gasgliadau bagiau du wrth ymyl y ffordd yn 2019 |
| Byddwn yn lleihau'r nifer gyfartalog o ddiwrnodau gweithio mae'n cymryd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon (PAM/035) (Canlyniad 2017/18 - 1.7 o ddiwrnodau / Targed 2018/19 – 2 ddiwrnod) | ✘ | Canlyniad 2018/19 - 2.3 o ddiwrnodau. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad. Bu newidiadau o ran categoraiddio a'r dulliau o gofnodi tipio anghyfreithlon, sydd wedi golygu bod nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon ymddangosiadol wedi cynyddu'n sylweddol. Mewn gwirionedd, mae lefelau tipio anghyfreithlon yn yr ystyr gonfensiynol wedi aros yn weddol sefydlog, ond erbyn hyn rydym hefyd yn cofnodi achosion o gamddefnyddio biniau sbwriel ledled y Sir fel "tipio anghyfreithlon" er mwyn mesur hyd a lled y broblem camddefnyddio biniau. Mae hyn wedi gogwyddo'r canlyniadau o gymharu â'r dulliau cofnodi gwreiddiol. |
| Byddwn yn cynnal lefel uchel o strydoedd yn lân (PAM/010) (Canlyniad 2017/18 - 98.7% / Targed 2018/19 - 92.0%) | ✘ | Canlyniad 2018/19 - 91.5%. Dangosodd canlyniadau gwael yn yr asesiadau ffordd gynnydd mewn sbwriel cysylltiedig ag ysmegu, yfed a phethau melys ac roedd y perfformiad blynyddol wedi gwaethygu. Mae nifer o fentrau wedi'u rhoi ar waith yn ystod 2018/19, ac rydym yn parhau i weithio gyda grwpiau lleol, asiantaethau partner a mannau gwerthu cludfwyd i fynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â sbwriel yn ein trefi ac ar draws y Sir ehangach drwy fentrau addysg ac ymwybyddiaeth, gweithredu uniongyrchol drwy ddefnyddio adnoddau a defnyddio grwpiau sbwriel lleol, ac, wrth gwrs, drwy orfodaeth ar ffurf hysbysiadau cosb benodedig ac erlyniadau fel y bo'n briodol. Mae gwaith monitro wedi'i wneud i nodi pa mor gyflym y mae ardaloedd lle mae sbwriel ar eu gwaethaf yn cael eu hanharddu'r eilwaith yn dilyn gwaith glanhau. Rydym yn parhau i fonitro ac adolygu gwelliannau posibl, ac mae'r rhain yn cynnwys arwyddion gwell ar gyfer biniau, lansio negeseuon newydd ar bafinau yn Llanelli i annog preswylwyr/ymwelwyr i waredu eu sbwriel yn gywir, ac adolygiad llawn o'r biniau sbwriel sy'n rhan o'r gwasanaeth presennol yn y sir. Mae'r lleoliadau hyn wedi'u mapio allan i nodi nifer yr unedau sydd allan ar strydoedd Sir Gâr. |
| Byddwn yn sicrhau bod glendid ein priffyrdd ar sail Archwiliadau Mynegai Glendid Cadwch Gymru'n Daclus yn parhau'n uchel (STS/005a) (Canlyniad 2017/18 – 77.8% / Targed 2018/19 - 71%) | ✓ | Dosberthir 75.7% o'n priffyrdd yn lân yn ystod 2018/19 yn seiliedig ar archwiliadau Mynegai Glendid Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'r canlyniad hwn yn cadw at y targed ond mae ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol. |